



Ein cyf: MA/EM/2763/21

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Seneddlechyd@senedd.cymru

1 Tachwedd 2021

Annwyl Russell,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 13 Hydref yn dilyn sesiwn graffu gyffredinol y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 23 Medi. Fel y gofynnwyd, rwy'n ateb ynghylch Cynlluniau'r Gaeaf – bydd ein hymateb ffurfiol ar y materion eraill a godwyd gan y Pwyllgor yn dilyn.

Cynlluniau Paratoi ar gyfer y Gaeaf

Mae pob sefydliad wedi datblygu cynlluniau ar gyfer y gaeaf fel rhan o'u trefniadau cynllunio blynyddol. Bydd y cynlluniau hyn yn cael eu hailystyried wrth i'r cyd-destun newid. Byddant yn destun proses adolygu a chraffu reolaidd fel rhan o drefniadau goruchwyllo parhaus Llywodraeth Cymru. Cyhoeddwyd [Cynllun y Gaeaf](#) ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 21 Hydref i gydlynu ymhellach ein hymdrechion ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol i ateb y galw y bydd gwasanaethau yn ei wynebu'r gaeaf hwn.

Yn benodol, mae Cynllun y Gaeaf ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2021-22 yn gofyn i bob rhanbarth ddatblygu cynllun y gaeaf integredig ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol drwy fecanweithiau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Bydd hyn yn helpu i ddarparu dull cydgysylltiedig o gynllunio ar gyfer y gaeaf a defnyddio'r gweithlu yn y modd gorau posibl, gan gydnabod bod capasiti'r gweithlu ac effaith barhaus y pandemig ar y gweithlu ymhlith y risgiau mwyaf sy'n wynebu gwasanaethau y gaeaf hwn.

Mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi cael canllawiau ar gyflwyno cynlluniau i bob rhanbarth, a chânt eu cefnogi gan £9.8 miliwn o gyllid ychwanegol ar ben buddsoddiad blaenorol yn y gronfa adfer i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn disgwyl i'r cynlluniau gael eu cyflwyno erbyn 25 Tachwedd. Bydd y rhain yn cynnwys yr elfennau o gynllunio ar gyfer y gaeaf a wneir gan fyrdau iechyd a'r rhai hynny a wneir gan

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

awdurdodau lleol yn ogystal â'r cyfrifoldebau ar y cyd o fewn cylch gorchwyl uniongyrchol y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Yn gywir,

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'M. E. Morgan'.

Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services



Ein cyf/Our ref: MA/EM/2763/21

Russell George AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Seneddlechyd@senedd.cymru

8 Tachwedd 2021

Annwyl Russell,

Diolch ichi am eich llythyr ar 13 Hydref yn dilyn sesiwn graffu gyffredinol y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 23 Medi.

Rydym wedi mynd i'r afael â phob un o gwestiynau ychwanegol y Pwyllgor fel a ganlyn – rydych eisoes wedi cael ymateb ynglŷn â'r Cynlluniau Paratoi ar gyfer y Gaeaf:

Cynyddu cyfraniadau Yswiriant Gwladol a chostau ynni

Bydd angen i sefydliadau'r GIG ystyried eu costau rhagamcanol ar gyfer blynyddoedd ariannol i ddod yn eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig a fydd yn cael eu cyflwyno ar ddechrau 2022. Bydd hyn yn cynnwys costau cyfraniadau Yswiriant Gwladol uwch y cyflogwr ac effaith unrhyw gynnydd mewn costau ynni. Bydd Llywodraeth Cymru yn cadarnhau ei chyllideb ar 20 Rhagfyr, a bwriedir cyhoeddi dyraniadau cyllid manwl y GIG ar gyfer 2022-23 yn fuan ar ôl cyhoeddi'r gyllideb.

Bydd y cyllid y gallwn ei ddarparu i'r GIG i dalu'r costau cynyddol hyn (ynni ac yswiriant gwladol) yn dibynnu ar ganlyniad Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU a rhaid bodloni unrhyw oblygiadau ariannu o'n setliad cyffredinol. Os nad yw setliad yr Adolygiad o Wariant yn gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer effaith cyfraniadau Yswiriant Gwladol ar gyflogwyr y GIG, ochr yn ochr â'r gwasanaethau cyhoeddus ehangach, gallai'r gallu i fodloni'r pwysau ariannol hyn arwain at oblygiadau o ran darparu gwasanaethau.

Cyfrifoldebau'r gweinidogion

Rhoddais yr argraff anghywir yn anfwriadol am y ffordd y cyflwynir cyfrifoldebau'r Gweinidogion ar wefan Llywodraeth Cymru. Rhestrir yr holl gyfrifoldebau gyda'i gilydd o dan enwau'r Gweinidogion a'r Dirprwy Weinidogion perthnasol, ond yn achos iechyd, iechyd meddwl a llesiant a gwasanaethau cymdeithasol, mae'n hawdd nodi pa feysydd y mae'r Dirprwy Weinidogion yn uniongyrchol gyfrifol amdanynt gan fod ganddynt deitlau penodol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'n ddrwg gennyf am unrhyw ddryswch a achoswyd. Fodd bynnag, fel yr eglurais yn sesiwn y Pwyllgor, rwy'n gweithio'n agos gyda'r ddwy Ddirprwy Weinidog o ystyried natur drawsbynciol a rhyng-gysylltiedig y portffolios.

Iechyd y cyhoedd a gweithgarwch ataliol

Gan ystyried rôl y pandemig o ran amlygu a gwaethygu anghydraddoldebau iechyd, byddwn yn parhau i ddefnyddio dull traws-lywodraethol, Iechyd ym Mhob Polisi i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yn ein cymdeithas. Wrth wneud hyn, byddwn yn defnyddio Platform Atebion Ecwiti Iechyd Cymru (ymhlith yr allbynnau cyntaf i ddeillio o'n Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Swyddfa Ranbarthol Ewrop Sefydliad Iechyd y Byd) i lywio atebion arloesol ar gyfer cau'r bwlch iechyd.

Mae'r pandemig wedi dyfnhau'r anghydraddoldebau iechyd a oedd eisoes wedi ymsefydlu ar draws llawer o'n cymunedau. Yn benodol, mae gordewdra yn cael effeithiau dinistriol ac yn gysylltiedig ag ystod eang o gyflyrau cronig. Drwy ein strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach, bydd cyllid o dros £13m ar gael dros y ddwy flynedd nesaf i ddarparu amryw o raglenni a gwasanaethau a fydd yn galluogi'r system i ymateb a helpu i wyrdroi'r tueddiadau gordewdra.

Mae gan Fyrddau Iechyd Lleol rôl fel arweinwyr yn y system, yn ogystal â chyfrifoldeb i ddarparu Llwybr Rheoli Pwysau Cymru Gyfan newydd a diwygiedig. Byddwn yn cynnwys mesurau pellach yn y Cynlluniau Tymor Canolig Integredig er mwyn sicrhau bod Byrddau Iechyd Lleol yn atebol o ran cyflawni newid.

Bydd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant yn cyhoeddi'r Cynllun Cyflawni ar gyfer 2022-2024 ar ddechrau 2022, a bydd yn cynnwys cyllid ar gyfer gwasanaethau gordewdra i ddarparu mynediad teg at gymorth ar draws Cymru, cyflawni gwaith dan arweiniad y system a fydd yn gweithio gyda chymunedau, treialu ymyriadau megis Rhaglen Plant a Theuluoedd a datblygu ymgyrchoedd newid ymddygiad i gefnogi newid cynaliadwy. Bydd y camau hyn yn cefnogi gweithgarwch ataliol yn ymwneud â gordewdra a'n lleoliadau ac amgylcheddau bwyd. Er bod llawer o waith i'w wneud, gallwn fod y genedl gyntaf yn y DU i gyflawni gostyngiad sylweddol yn y niferoedd hyn.

O ran tybaco, mae smygu'n hynod o niweidiol ac andwyol i iechyd, a dyma un o brif achosion anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru o hyd. Cyn bo hir, byddwn yn cyhoeddi ein strategaeth ddrafft ar gyfer ymgynghoriad, yn ogystal â'r cyntaf o'n cynlluniau cyflawni dwy flynedd i amlinellu'r camau penodol wedi'u targedu a fydd yn ein helpu i leihau'r niwed sy'n deillio o dybaco yng Nghymru. Mae'r strategaeth ddrafft yn nodi ein huchelgais i gyflawni Cymru ddi-fwg erbyn 2030, sy'n golygu cael cyfradd cyffredinrwydd smygu o 5% neu lai ymhlith oedolion dros yr wyth mlynedd nesaf. Rhan allweddol o'n gweledigaeth ar gyfer cael Cymru ddi-fwg yw cynorthwyo pobl, yn enwedig plant a phobl ifanc, i beidio â dechrau smygu. Yn ystod y broses ymgynghori, byddwn yn ymgymryd â gweithgareddau ymgysylltu i glywed gan y rhai y mae smygu yn effeithio arnynt a sicrhau y bydd y camau yr ydym yn bwriadu eu cymryd yn y strategaeth a'r cynllun cyflawni cyntaf yn mynd i'r afael â smygu yng Nghymru yn y ffordd orau bosibl.

Rydym hefyd wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ddeall sut y gallai rhagnodi cymdeithasol helpu Cymru i adfer ar ôl COVID-19. Bydd y grŵp, mewn partneriaeth â gofal sylfaenol, byrddau iechyd, y trydydd sector a chyrff perthnasol eraill, yn datblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer rhagnodi cymdeithasol sy'n darparu gweledigaeth o ragnodi cymdeithasol yng Nghymru sydd o safon gyson uchel ym mhob rhan o'r wlad.

Mae gan Fyrddau Iechyd Lleol rôl fel arweinwyr yn y system, yn ogystal â chyfrifoldeb i ddarparu Llwybr Rheoli Pwysau Cymru Gyfan newydd a diwygiedig. Mae'r Llywodraeth wrthi'n ystyried beth yw'r ffordd orau o ddefnyddio Fframwaith Cynllunio'r GIG i sicrhau bod Byrddau Iechyd Lleol yn atebol am sicrhau newid mewn perthynas â gordewdra a lleihau cyffredinrwydd smygu.

Rhyddhau o'r ysbyty

Mae awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn cydweithio'n agos i sicrhau bod llwybrau rhyddhau o'r ysbyty yn cael eu cynnal a'u gweithredu er budd pobl ac i leihau oedi. Maent hefyd yn ystyried ffyrdd newydd o weithio a pha gyfleoedd a ddaw drwy gyd-gymorth i wneud y mwyaf o'u hadnoddau staffio.

Ym mis Gorffennaf eleni lansiwyd ein chwe nod ar gyfer gofal brys a gofal argyfwng yng Nghymru i weithio i sicrhau'r profiad gorau posibl i gleifion a staff yn ogystal â sicrhau canlyniadau a gwerth clinigol. I gyfeirio'n uniongyrchol at weithdrefnau rhyddhau cleifion o'r ysbyty, rydym wedi gosod nodau pump a chwech sy'n gweithio i sicrhau'r 'gofal gorau ar ôl derbyn i'r ysbyty' a 'dull cartref yn gyntaf a lleihau'r risg o aildderbyn i'r ysbyty'. Bydd y £25m o gyllid cenedlaethol rheolaidd yn cefnogi Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG i gyflawni'r 'chwe nod'.

Bydd y cyllid hwn yn ategu'r cyllid o £6m sydd ar gael ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn 2021/2022 er mwyn darparu llwybrau 'rhyddhau i wella ac yna asesu' (D2RA) yn gyson. Mae hyn yn rhan o'r 'dull cartref yn gyntaf' i sicrhau'r canlyniadau a'r profiadau gorau posibl i bobl sydd wedi cael eu derbyn i'r ysbyty ac sydd angen rhywfaint o gymorth ychwanegol ar ôl dychwelyd i'w cymunedau lleol. Gwnaethom gyflwyno canllawiau sy'n ymgorffori dull D2RA yng nghamau cynnar y pandemig COVID. Mae ei egwyddor yn seiliedig ar dystiolaeth o well canlyniadau i bobl sy'n trosglwyddo cyn gynted â phosibl i'w preswylfa arferol neu i leoliad gofal addas arall i adfer neu i ail-alluogi, cyn cael asesiadau ar gyfer gofal hirdymor. Bydd cyflawni'r llwybrau hyn yn gyson ac yn ddibynadwy cyn ac yn ystod cyfnod y gaeaf yn flaenoriaeth gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Bydd rhaglen genedlaethol newydd o fewn y portffolio gofal brys a gofal argyfwng i gefnogi Byrddau Iechyd a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r nodau gofal brys sef 'y gofal gorau ar ôl derbyn i'r ysbyty' a 'dull cartref yn gyntaf a lleihau'r risg o aildderbyn i'r ysbyty'.

Rydym yn ymwybodol mai dim ond un rhan o'r darlun yw sicrhau proses ryddhau addas rhwng ysbytai a'r cartref neu leoliadau gofal. Mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar y sector gofal cymdeithasol a'i allu i weithredu a chefnogi'r rhai sydd angen gofal, a all gynnwys y rhai sydd wedi cael eu rhyddhau o ysbytai, neu sydd i fod i gael eu rhyddhau o ysbytai. Gwyddom hefyd y bydd y galw cynyddol am ofal cymdeithasol yn parhau drwy gyfnod y gaeaf a thu hwnt. Rydym wedi dyrannu £48m i gefnogi gofal cymdeithasol yng Nghymru. Dyrannwyd £40m o'r cyllid hwn i awdurdodau lleol a bydd yn cael ei ddefnyddio i helpu'r sector gofal cymdeithasol i ymateb i'r heriau parhaus a achosir gan y pandemig.

Mae swyddogion yn bwrw ymlaen â thrafodaethau am y pwysau ar y system a chadernid y system fel rhan o broses barhaus gyda chyrff iechyd a gofal cymdeithasol drwy ddulliau llywodraethu presennol. Ym mis Awst, ysgrifennom at Fyrddau Iechyd ac ymddiriedolaethau i geisio sicrwydd ar gynlluniau i adeiladu cadernid y system. Cafwyd ymatebion ac fe adolygwyd y rhain i geisio sicrwydd ac i nodi camau pellach. Yn ogystal â hyn, mae cyfarfodydd y bwrdd Cynllunio Ansawdd Integredig a Darparu rhwng byrddau iechyd a Llywodraeth Cymru yn cael eu defnyddio fel dull parhaus i roi adborth a cheisio sicrwydd pellach.

O ystyried bod rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn ddiogel ac yn briodol yn aml yn fater aml-ddisgyblaeth a thraws-sector, mae'n amlwg bod angen dull unedig i fynd i'r afael ag ef, sy'n cynnwys iechyd, gofal cymdeithasol a phartneriaid perthnasol. Rwyf wedi nodi rhai o'r camau allweddol hynny yr ydym wedi'u cymryd, yn gyfredol ac yn y tymor hir, er mwyn mynd i'r afael â chyflwr presennol y broses ryddhau o'r ysbyty. Fodd bynnag, bydd angen ymrwymiad parhaus gan bob grŵp i'w gyflawni, yn enwedig wrth i ni gyrraedd misoedd y gaeaf.

Sut mae anghenion gofal cymdeithasol pobl sydd â COVID hir, neu sy'n gwella o COVID hir yn cael eu hystyried, eu hasesu a'u diwallu gan fyrddau iechyd lleol a byrddau partneriaeth rhanbarthol.

Mae darpariaethau yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd fel aelodau o Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i asesu anghenion gofal a chymorth eu poblogaeth ar y cyd. Rhaid i'r Asesiadau Anghenion Poblogaeth hyn ganfod; i ba raddau nad yw anghenion yn cael eu diwallu, ystod a lefel y gwasanaethau sydd eu hangen (gan gynnwys gwasanaethau ataliol); a sut y bydd gwasanaethau o'r fath yn cael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cyhoeddwyd y rownd gyntaf o Asesiadau Anghenion Poblogaeth yn 2017 ac mae'n cynnwys cyfoeth o wybodaeth ar draws amrywiol ffynonellau. Mae'n ofynnol i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol adnewyddu'r wybodaeth hon o bryd i'w gilydd a gwnaethpwyd hynny'n fwyaf diweddar yn ystod tymor yr hydref y llynedd mewn perthynas ag effaith COVID-19, a helpodd i lywio eu Cynlluniau ar gyfer y Gaeaf. Mae'r set nesaf o Asesiadau Anghenion Poblogaeth wrthi'n cael eu datblygu ar hyn o bryd a byddant yn cael eu cyhoeddi ym mis Ebrill y flwyddyn nesaf. Ysgrifennom at Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ym mis Mawrth, gan ei gwneud yn ofynnol i'w Hasesiadau Anghenion Poblogaeth adeiladu ar y wybodaeth a gasglwyd eisoes a thynnu sylw'n benodol at effaith COVID hir ar draws y boblogaeth, y gwasanaethau a'r gweithlu.

Mae'r Asesiadau Anghenion Poblogaeth hyn yn allweddol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau iechyd a gofal integredig ar gyfer y rhanbarth. Ochr yn ochr â'r dystiolaeth a gasglwyd drwy eu Hadroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad, byddant yn helpu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i lunio eu Cynlluniau Ardal ar y Cyd, a fydd yn cael eu cyflwyno ym mis Ebrill 2023, gan eu galluogi i gynllunio a darparu gwasanaethau gofal a chymorth yn eu hardal a helpu i sicrhau adferiad effeithiol o'r pandemig.

Mae partneriaid y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cydweithio i ddatblygu cynlluniau ar gyfer darparu gwasanaethau'n integredig mewn amryw o feysydd gwasanaeth a bydd hyn yn cynnwys cynllunio gwasanaethau ar gyfer COVID hir. Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wrthi'n datblygu eu Hasesiad o Anghenion y Boblogaeth a bydd hwn yn nodi meysydd ar gyfer cynllunio ar y cyd a darparu gwasanaethau integredig yn y dyfodol ar draws ystod eang o feysydd gwasanaeth. Mae'r Gronfa Gofal Integredig (ICF) wedi chwarae rhan bwysig yn yr ymateb cenedlaethol i'r pandemig, ac mae hynny'n parhau. Mae llawer o brosiectau a gwasanaethau presennol wedi ehangu neu addasu y llynedd i helpu'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ymdopi â'r hyn a oedd yn alw digynsail am wasanaethau, ac mae hyn yn parhau, gan sicrhau bod pobl yn cael y gwasanaethau gofal a chymorth sydd eu hangen arnynt. Mae'r rhain yn cynnwys amryw o gynlluniau ysbyty i'r cartref, cynlluniau rhyddhau cleifion yn gyflym o'r ysbyty a chynlluniau osgoi ysbytai, gwasanaethau cymunedol a gwasanaethau ail-alluogi.

Rydym yn buddsoddi £89m ychwanegol yn y Gronfa Gofal Integredig eto eleni a fydd yn caniatáu i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddefnyddio'r cyllid hwn i barhau i ddiwallu anghenion ystod eang o bobl gan gynnwys y rhai sydd â COVID hir

Mae nifer o heriau'n wynebu'r sector gofal cymdeithasol, a'r rhain yn fwy difrifol o ganlyniad i'r pandemig. Bydd COVID hir ac unrhyw gynnydd yn y galw yn effeithio ar faint y gweithlu yn ogystal â'r gofynion arno. Rydym yn cyfathrebu'n rheolaidd â'n hawdurdodau lleol, darparwyr gofal cymdeithasol ac undebau i nodi ystod o gamau gweithredu i gefnogi pobl sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol a mynd i'r afael â'r materion yr ydym yn eu hwynebu o ran recriwtio a chadw staff. Yn ystod mis Awst a mis Medi cynhaliwyd ymgyrch recriwtio genedlaethol a oedd yn cynnwys hysbysebion ar y teledu a chlipiau ar y cyfryngau cymdeithasol sydd wedi arwain at ddyblu nifer yr ymwelwyr â phorth swyddi Gofalwn.Cymru a chynnydd o draean, hyd yma, yn y nifer o bobl sy'n gwneud cais am swyddi gofal cymdeithasol. Datblygwyd yr ymgyrch frys hon, sydd bellach wedi'i hymestyn am dri mis arall, i ymateb ar unwaith i'r pwysau cynyddol ar y sector.

Dyrannwyd £48m hefyd i gefnogi adferiad gofal cymdeithasol yng Nghymru ac i fynd i'r afael â'r pwysau rydym yn parhau i'w hwynebu o fewn y sector. Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid – £40m – wedi'i ddyrannu i awdurdodau lleol a chaiff ei ddefnyddio i helpu'r sector gofal cymdeithasol i ymateb i'r heriau parhaus a achosir gan y pandemig.

Data ar y gyfran o ymgynghoriadau meddygon teulu a gynhaliwyd wyneb yn wyneb ac o bell, gan gynnwys unrhyw wahaniaeth rhwng byrddau iechyd a rhwng practisau ledled Cymru.

Y llynedd, cyflawnodd 76% o feddygon teulu yng Nghymru yr holl safonau a osodwyd i fesur mynediad yn ystod oriau, sy'n gynnydd o 11% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yn ogystal, mae swyddogion wedi bod yn gweithio gyda Phwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol Cymru, Byrddau Iechyd ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru i wella'r broses o adrodd am weithgareddau a datblygu dull o fesur nifer a dull yr ymgynghoriadau a gynhaliwyd gan dimau'r Gwasanaeth Meddygol Cyffredinol yng Nghymru.

Ar hyn o bryd mae'r data'n cael eu cadw ar systemau meddygon teulu, a nhw yw'r rheolydd data, felly mae gwaith helaeth wedi'i wneud i gael mynediad atynt i'w dadansoddi. Ein bwriad yw ffurfioli'r mynediad i'r data, drwy sicrhau bod y sail gyfreithiol i'w rhannu yn gadarn, a chymryd camau i safoni eu mewnbwn. Mae gweithgor yn datblygu'r broses hon, a fydd yn galluogi mesur y dulliau ymgynghori mewn ffordd gywir a dibynadwy.

Manylion am nifer y plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n cael mynediad i wasanaethau iechyd meddwl arbenigol, ac amseroedd aros ar gyfer asesiadau ac ymyrraeth therapiwtig.

Mae manylion llawn ar gael ar [StatsCymru](#); ceir dolenni uniongyrchol i'r holl ddata y gofynnir amdanynt isod:

1. Plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol – [Atgyfeiriadau am asesiad LMPHSS, yn ôl BILI, oedran a mis \(llyw.cymru\)](#). Mae niferoedd ar gael yn ôl oedran, o dan 18 oed ac 18 oed a hŷn.
2. Amseroedd aros plant a phobl ifanc ac oedolion am asesiad gwasanaeth cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol (LMPHSS) – [Amseroedd aros ar gyfer asesiad LMPHSS, yn ôl BILI, oedran a mis \(llyw.cymru\)](#). Mae niferoedd ar gael yn ôl oedran, o dan 18 oed ac 18 oed a hŷn.
3. Amseroedd aros plant a phobl ifanc ac oedolion am ymyriad therapiwtig – [Amseroedd aros am ymyriad therapiwtig, yn ôl BILI, oedran a mis \(llyw.cymru\)](#). Mae niferoedd ar gael yn ôl oedran, o dan 18 oed ac 18 oed a hŷn.
4. Plant a Phobl Ifanc sy'n defnyddio Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (sCAMHS) arbenigol, ac amseroedd aros – [llwybrau cleifion sCAMHS yn aros am apwyntiad cyntaf fesul mis ac wythnosau wedi'u grwpio \(llyw.cymru\)](#)

Cadarnhad ynghylch a yw unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru ar hyn o bryd yn gwario llai na'i asesiad gwariant safonol ar ofal cymdeithasol.

Nid yw Aseidiadau o Wariant Safonol yn dargedau ar gyfer gwariant awdurdodau lleol. Maent yn rhan o'r dull ar gyfer dosbarthu cyllid setliad refeniw i awdurdodau lleol ac yn ymgais i fodelu'r angen cymharol i lywodraeth leol wario ar draws pob awdurdod ac ar draws yr holl wasanaethau, o ystyried faint o arian sydd ar gael i'w ddosbarthu ac incwm y dreth gyngor wedi'i fodelu. Felly, nid yw hon yn gymhariaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud.

Mae data gwariant diweddaraf Awdurdodau Lleol ar gael drwy'r ddolen hon:

<https://statscymru.llyw.cymru/v/KbrR>

Mae data'r Aseiad Gwariant Safonol diweddaraf ar gael drwy'r ddolen hon:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/setliad-refeniw-a-chyfalaf-terfynol-llywodraeth-leol-2021-i-2022-mewn-tablau.xlsx>

Yn gywir,



Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services